



Gwers 35

Y Cymydog Da



Cyfres Stori Duw

Luc 10: 25–37

Nod:

Deall pwy yw ein cymydog.

Adnodau:

Luc 10: 25–37

Darllen yr hanes:

Darllenwch yr hanes a gofyn i'r dosbarth drafod ffordd 'fodern' o adrodd yr hanes. Pwy fyddai'r offeiriad heddiw? Pwy yw'r Lefiad? Pwy yw'r Samariad? Os oes amser, gall y dosbarth actio'r hanes yn defnyddio eu newidiadau modern. Goruchwylwch chi hwy, gan wneud yn siŵr eu bod yn glynu at rannau pwysig yr hanes er y newidiadau moderneiddio. Os oes dosbarth mawr gennych, gallwch eu rhannu'n ddau grŵp a chael y ddau grŵp i berfformio'r ddrama i'w gilydd.

Gêm:

Ras gyfnewid y samariaid trugarog

Fe fydd angen, 2 rôl papur toiled.

Gallwch rannu'r dosbarth yn ddau ar gyfer y ras gyfnewid, neu os yw'r dosbarth yn un bach, gadewch iddynt fod yn un tîm yn rasio yn erbyn y cloc.

Cliriwch unrhyw fyrddau ac ati o'r ffordd, i wneud llwybr clir o un pen yr ystafell i'r llall.

Gofynnwch i'r tîmoedd sefyll wrth un wal.

Pan ddwedwch chi 'ewch' (mewn dosbarth llai dechreuwch amseru wrth ddweud y gair)

mae aelod cynta'r tîm i hopian at y wal ar ben arall yr ystafell, wedi cyrraedd mae i orwedd ar y llawr.

Cyn gynted ag y bydd y person hwn yn cyffwrdd y llawr, mae gweddill y tîm i hopian ato, defnyddio'r papur toiled i roi rhwymyn ar ein ben, coes chwith a braich dde, ac yna ei gario yn ôl i'r cychwyn.

Yna mae'r ail i wneud yr un modd.

Y tîm buddugol yw'r un sydd wedi cario pob aelod yn ôl i'r man cychwyn ac wedi rhwymo eu pen, coes chwith a braich dde.

Os oedd y tîm yn rasio yn erbyn y cloc cyhoeddwch eu hamser, a gadael iddynt geisio curo'r amser hwnnw wrth drio eto.

Trafod:

Pwy yw ein cymydog? Beth sy'n gwneud cymydog 'da'?

Os oes gennych chi hanes am gymydog sydd wedi bod yn garedig, o help i chi, er efallai eu bod wedi gorfod mynd allan o'u ffordd i wneud hynny, rhannwch y stori honno.

Gweithgaredd: bydd angen dau fath gwahanol o bys neu ffa sych, er enghraifft rhai gwyrdd a rhai melyn. Labelwch un math yn 'brodyr a chwirydd' a'r llall yn 'cymdogion'.

'Brodyr a chwirydd' yw'r rhai yr ydyn yn perthyn iddynt. Aelodau o eglwys Iesu Grist fel ni. 'Cymdogion' yw pawb arall sy'n byw yn ein pentref, ein tref, ein gwlad a'r byd i gyd.

Mewn bywyd go iawn, nid ydym yn byw ar wahân i'n cymdogion ond yn eu canol. Felly, cymysgwch y cwbl gyda'i gilydd. Gofynnwch ble mae'r cymdogion erbyn hyn?

Mae Iesu Grist yn dweud wrthym fod pob un sy'n ei garu Ef yn trin pawb fel ffrindiau. Mae hyn yn golygu cymryd sylw ohonynt: dweud 'helo' wrth fynd heibio, gwenu wrth gyfarfod pobl a bod yn gwmni i rai unig. Fe wnaiff hyn ddangos cariad Crist i eraill, a dangos hefyd mai nid yn unig dweud ein bod yn dilyn Iesu ym ni, rydym yn dangos hynny drwy'r ffordd yr ydym yn byw ein bywydau.

Gweithgaredd:

Os na wnaeth y dosbarth y gweithgaredd drama ar ddechrau'r wers. Gofynnwch iddynt greu cartŵn o ddameg y samariad trugarog ar atodiad 19.

Amser Addoli:

Gofyn i Dduw ein helpu ni i weld ein cymdogion, i roi cyfle bob dydd i wneud rhywbeth dros rywun arall nad yw yn 'frawd neu chwaer'. I ddangos Iesu i eraill. Gweddïwch y bydd y dosbarth ysgol Sul, â'r capel yn tyfu wrth i eraill ddod i adnabod Crist trwy'r bobl ifanc. Amen